



Trefniadau a Pholisi Derbyn Ysgolion 2019-2020

1. YR AWDURDOD DERBYN

'Awdurdod Derbyn' sy'n rheoli ac yn gweinyddu mynediad plant i ysgolion. Yn achos ysgolion cymunedol, yr awdurdod lleol (ALI) yw hwn, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn unol â Rheoliadau Addysg (Meysydd Perthnasol ar gyfer Ymgynghori ar Drefniadau Derbyn) 1999, y maes perthnasol ar gyfer yr Awdurdod Derbyn yw ardal ddaearyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Pan fo'r ALI yn awdurdod derbyn, mae dyletswydd ar gorff llywodraethu'r ysgol i weithredu yn unol â phenderfyniad yr ALI ar geisiadau, ac i weithredu'n unol â threfniadau derbyn yr ALI.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau derbyn yn barhaus ac yn cadw'r hawl i'w diwygio ar gyfer addysg statudol ac anstatudol.

Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, yr awdurdod derbyn yw corff llywodraethu'r ysgol unigol. Mae rhagor o wybodaeth am dderbyn plant i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr wedi'i nodi yn Adran 24.

2. DEWIS RHINIEN

Mae gan yr ALI ddyletswydd statudol i ystyried yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu'n unol â dymuniadau eu rhieni, cyn belled â bod hynny'n gyson â darparu addysg effeithlon ac yn osgoi gwariant cyhoeddus afresymol (A.9 Deddf Addysg 1996).

O fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu (ei dalgylch), ond mae'n rhaid i'r ALI roi'r cyfle i rieni/gofalwyr fynegi dewis cadarnhaol ar gyfer yr ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae rhieni'n ddigon hapus i ddewis eu hysgol ddalgylch, ond mae'r gyfraith yn mynnu bod yr ysgol honno yn cael ei dewis gan rieni/gofalwyr a'i henwi ar ffurflen o'r enw 'Derbyn i'r Ysgol'.

Mae gan yr ALI ddyletswydd i fodloni'r dewisiadau derbyn a fynegir gan rieni o flaen y rhai hynny nad ydynt wedi nodi dewis. O ganlyniad, mae'n rhaid i rieni sicrhau eu bod yn dychwelyd y ffurflen 'Derbyn i'r Ysgol' gan fynegi eu dewis erbyn y dyddiad cau a nodwyd, yn hytrach na chymryd yn ganiataol y bydd lle ar gael i'w plentyn mewn ysgol benodol, hyd yn oed os mai honno yw eu hysgol ddalgylch.

Bydd yr ALI yn anfon y ffurflen 'Derbyn i'r Ysgol' i rieni sydd â phlentyn a fydd, ym mis Medi 2019, yn:

- dechrau'r ysgol am y tro cyntaf (nid yw hyn yn cynnwys y plant hynny sy'n dechrau mewn dosbarth/ysgol feithrin); neu'n
- symud o ysgol fabanod i ysgol iau neu ysgol gynradd, (nid yw hyn yn cynnwys y plant hynny sy'n symud o adran fabanod i adran iau o fewn yr un ysgol gynradd); neu'n
- symud o ysgol iau neu ysgol gynradd i ysgol uwchradd.

Yn achos derbyniadau'r awdurdod lleol, gall yr ysgol ddewisol fod yn ysgol gymunedol o'r naill categori iaith neu'r llall (Cymraeg neu Saesneg), neu'n ysgol wirfoddol a reolir. Os yw rhiant yn dymuno gwneud cais am le mewn ysgol wirfoddol a gynorthwyr, dylai gysylltu â'r ysgol honno'n uniongyrchol i ofyn am ffurflen gais.

Mae'r ffurflen dderbyn hefyd yn caniatáu i rieni restru mwy nag un ysgol yn nhrefn blaenoriaeth. [Gellir cael ffurflenni cais am dderbyniadau i ysgolion ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.](#)

Os oes gan rieni/gofalwyr unrhyw gwestiynau ynghylch y broses dderbyn, gallant gysylltu â'r tîm Cymorth i Ddysgwyr:

E-bost: pupilservices@bridgend.gov.uk
 Rhif Ffôn: 01656 642637
 Cyfeiriad: Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr, Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB

Mae fersiwn lawn o'r ddogfen hon hefyd wedi'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (gweler y ddolen uchod).

3. AMSERLEN AR GYFER DERBYNIADAU I YSGOLION – MEDI 2019-2020

Dyma'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer prosesu ceisiadau am dderbyniadau i ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfer mis Medi 2018:-

Disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgol iau/ysgol gynradd (blwyddyn 6) i ysgol gyfun m mis Medi 2019

Gweithred	Dyddiad
Anfon ffurflenni ymgeisio at rieni/gofalwyr/ysgolion	Dydd Llun 22 Hydref 2018
Dyddiad olaf anfon ffurflenni ymgeisio wedi eu cwblhau at yr ALI	Dydd Gwener 11 Ionawr 2019
Hysbysu rhieni/gofalwyr a yw'r lle wedi ei dderbyn/ei wrthod	Dydd Gwener 1 Mawrth 2019
Rhoi gwybod am unrhyw apêl	o Ebrill 2019

Derbyn disgyblion Dosbarth Derbyn a disgyblion Babanod (B2) sy'n trosglwyddo i'r Ysgol Iau (B3) ym mis Medi 2019

Gweithred	Dyddiad
Anfon ffurflenni ymgeisio at rieni/gofalwyr/ysgolion	Dydd Llun 26 Tachwedd 2018
Dyddiad olaf anfon ffurflenni ymgeisio wedi eu cwblhau at yr ALI	Dydd Gwener 15 Chwefror 2019
Hysbysu rhieni/gofalwyr a yw'r lle wedi ei dderbyn/ei wrthod	Dydd Mawrth 16 Ebrill 2019
Rhoi gwybod am unrhyw apêl	O fis Mai 2019

Nid yw'r amserlen ar gyfer derbyn plant i ddsbarthiadau meithrin wedi'i rheoli gan y Cod Derbyn i'r Ysgol (2013), ac mae wedi'i nodi yn Adran 12.

Ceisiadau hwyr

Dim ond ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig a ystyrir wrth ddyrannu lleoedd. Caiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl hynny eu hystyried fel ceisiadau hwyr. Caiff ceisiadau hwyr eu prosesu ar ôl y ceisiadau a ddaeth i law erbyn y dyddiad cau ac o'r herwydd, efallai y canfu ymgeiswyr hwyr fod eu dewis ysgol yn llawn eisoes, hyd yn oed os mai'r ysgol honno yw ysgol eu dalgylch.

4. AMGYLCHIADAU PAN NA FYDD Y DDYLETSWYDD I GYDYMFFURFIO Â DEWIS RHIENI'N BERTHNASOL

Nid yw'r ddyletswydd y mae angen i'r ALI a llywodraethwyr ysgolion gydymffurfio â hi yn berthnasol mewn amgylchiadau pan fydd:

- derbyn y plentyn yn niweidiol i ddarpariaeth addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau;
- y plentyn wedi ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu fwy. Nid yw'r gofyniad i gydymffurfio â dewis rhieni yn berthnasol am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl yr ail waharddiad. Nid yw hyn yn berthnasol i blant a oedd yn iau na'r oedran addysg orfodol pan gawsant eu gwahardd nac i ddisgyblion a gafodd eu derbyn yn ôl ar ôl cael eu gwahardd; neu pan fyddai derbyn yn anghydnaws â'r ddyletswydd statudol i gadw at y terfyn o 30 disgybl mewn dosbarthiadau babanod (gweler Adran 7).

5. CAPASITI

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio methodoleg cyfrifo capasiti ar gyfer pob ysgol. Nod y fethodoleg yw darparu dull cadarn a chyson o asesu capasiti pob ysgol ac mae'n seiliedig ar faint o le sydd ar gael ar hyn o bryd a'r defnydd a wneir ohono. Mae'r cyfrifiad capasiti yn galluogi'r awdurdod lleol i gyfrifo Rhif Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer pob ysgol. Cyfrifir y rhif hwn drwy rannu'r capasiti cyffredinol â nifer y grwpiau blwyddyn mewn ysgol (heb gynnwys y dosbarth meithrin). Mae'r canllawiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (Cylchlythyr Rhif 021/2011) yn nodi, "Gan fod y nifer derbyn yn adlewyrchu gallu'r ysgol i dderbyn disgyblion, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid rhagori ar y nifer hwn".

6. NIFEROEDD DERBYN

Rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at ei rhif derbyn cyhoeddedig yn y gr*p oedran perthnasol. Y gr*p oedran perthnasol ar gyfer derbyn i'r ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw:

Ysgolion Babanod/Cynradd	4/5 Oed	(dosbarth derbyn)
Ysgolion Iau	7/8 Oed	(blwyddyn 3)
Ysgolion Uwchradd	11/12 Oed	(blwyddyn 7)

7. RHEOLIADAU O RAN MAINT DOSBARTHIADAU BABANOD

Er mwyn gwella safonau addysg mewn ysgolion, mae gan y llywodraeth bolisi (Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013) sy'n nodi na ddylai dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion. Dim ond os yw'r rhif derbyn cyhoeddedig eisoes wedi'i gyrraedd y caiff awdurdodau derbyn wrthod lleoedd ar sail maint dosbarthiadau babanod.

Fodd bynnag, mae nifer o eithriadau cyfyngedig lle mae'r ALI yn gallu cael mwy na'r uchafswm o 30 disgybl e.e. plant y mae eu datganiadau AAA yn dweud y dylen nhw gael eu dysgu yn yr ysgol dan sylw, ac a gaiff eu derbyn i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol, a phlant sy'n "derbyn gofal" gan yr ALI neu wedi bod yn derbyn gofal (plant a arferai dderbyn gofal).

8. GWYBODAETH ANWIR A PHROFI CYFEIRIAD

Wrth ystyried a yw plentyn yn byw o fewn dalgylch ysgol, bydd yr ALI yn ystyried cyfeiriad parhaol y rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol er mwyn bodloni'r meini prawf derbyn, ni waeth beth yw trefniadau domestig y teulu. Hynny yw, ni ddylid rhoi cyfeiriad perthynas neu warchodwr plant arall ac ati. Rhaid rhoi gwybod i'r ALI ar unwaith os bydd unrhyw newid yn y cyfeiriad parhaol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ysgolion sy'n gwasanaethu dalgylchoedd trwy gysylltu â'r tîm Cymorth i Ddysgwyr ar 01656 642637.

Os yw rhiant yn mynd ati'n fwriadol i roi gwybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol er mwyn manteisio ar le mewn ysgol arbennig i'w blentyn, na fyddai ganddo'r hawl iddo fel arall, mae gan yr ALI yr hawl i dynnu ei gynnig o le yn ôl. Pan fydd lle'n cael ei dynnu'n ôl, bydd y cais yn cael ei ailystyried o'r newydd, a bydd hawl i apelio'n cael ei gynnig os caiff lle ei wrthod. Os oes amheuaeth ynghylch cyfeiriad parhaol disgybl sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol, mae gan yr ALI yr hawl i ofyn am wiriad pellach (gallai tystiolaeth o'r fath gynnwys bil cyfleustodau neu ddatganiad y dreth gyngor). Caiff yr holl ddata ei brosesu'n unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Os yw rhieni/gofalwyr yn gwneud cais am le mewn ysgol ddalgylch ar y sail eu bod yn symud tŷ, mae'n rhaid darparu tystiolaeth ysgrifenedig gan gyfreithiwr sy'n nodi bod gwerthiant o'r fath wedi ei gwblhau a bod cytundebau wedi eu cyfnewid. Os yw rhieni/gofalwyr yn gwneud cais ar sail rhentu eiddo yn yr ardal ddalgylch, bydd angen tystiolaeth o gytundeb tenantiaeth.

9. CYDRADDOLDEB

Mae trefniadau derbyn y Cyngor yn ceisio cydymffurfio'n llawn â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol o ran cyfle cyfartal a hawliau dynol (Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993).

Mae ar y Cyngor eisiau i'n gwasanaethau fod yn hygyrch i'r gymuned gyfan a bydd yn herio gwahaniaethu yn ein cymunedau, boed hwnnw'n seiliedig ar statws trawsryweddol, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred person, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gyflawni ei swyddogaethau, gan roi sylw dyledus i'r angen i:

- gael gwared â gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir dan y Ddeddf;
- datblygu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r un nodweddion;
- meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r un nodweddion.

10. PLANT PERSONÉL LLUOEDD ARFOG Y DU A GWEISION ERAILL Y GORON (gan gynnwys diplomyddion)

Bydd plant personél lluoedd arfog y DU a gweision eraill y goron yn cael eu trin fel plant yn y dalgylch os caiff llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad ei atodi gyda'u ffurflenni cais yn datgan dyddiad dychwelyd a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd. Mae'n bosibl y bydd plant personél lluoedd arfog y DU a gweision eraill y goron (gan gynnwys diplomyddion) yn cael statws disgybl a eithrir at ddibenion maint dosbarth babanod pan gânt eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol.

11. PLANT Â DATGANIAD ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Bydd plant â datganiad o AAA yn cael eu derbyn i'r ysgol a nodwyd ar eu datganiad ac ni chânt eu hystyried yn rhan o'r meini prawf pan fydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael.

12. ADDYSG FEITHRIN

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Awdurdodau Lleol sicrhau lle addysg blynyddoedd cynnar rhan-amser am ddim i blant tair oed cymwys o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Gall y lle fod naill ai mewn ysgol a gynhelir gan ALI neu yn y sector nas cynhelir, gyda darparwr blynyddoedd cynnar cofrestredig. Pan fydd rhieni'n dewis lle gyda darparwr blynyddoedd cynnar cofrestredig, byddant yn gymwys i gael cyllid ar gyfer lle rhan-amser, boed y lle a gynigir yn un amser llawn neu'n un rhan-amser. Yn yr achos hwn, bydd y grant yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r darparwr.

Bydd ffurflenni cais ar gyfer derbyn i ysgolion/dosbarthiadau meithrin ar gael ar 7 Ionawr 2019 a rhaid eu dychwelyd i'r ALI erbyn 25 Mawrth 2019. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybod canlyniad eu cais meithrin amser llawn ar 20 Mai 2019 a'u cais meithrin rhan-amser ym mis Tachwedd 2019.

Mae'r ALI wedi ymrwymo i'r egwyddor o ddarparu ysgolion lleol i blant lleol a bydd yn gwneud pob ymdrech bosibl i roi lle i blant yn eu hysgolion dalgylch, pan fydd rhieni/gofalwyr wedi mynegi dewis cadarnhaol ar gyfer yr ysgol honno. Fel arfer, bydd ALI ond yn derbyn cynifer â rhif derbyn cyhoeddedig yr ysgol wrth ddyrannu lleoedd meithrin amser llawn. Pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr ALI yn defnyddio'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:-

Mae'r lleoedd mewn ysgolion a gynhelir gan Awdurdodau Lleol yn rhan-amser i blant 3 oed (blwyddyn un meithrin) ac yn amser llawn i blant 4 oed (blwyddyn dau meithrin).

Meini prawf pan nad oes digon o leoedd meithrin amser llawn:-

1. Plant sy'n 'derbyn gofal' a phlant a arferai 'dderbyn gofal'
2. Bydd plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Awst 2019 ac sydd fel arfer yn byw yn nalgylch yr ysgol gymunedol yn cael eu hystyried yn gyntaf. Bydd y plant hyn yn cael eu pen-blwydd yn 4 oed yn ystod y flwyddyn academaidd (blwyddyn dau meithrin) a byddant yn gymwys i gael lle amser llawn yn yr adran feithrin ym mis Medi 2019.

Os yw ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripled eraill.
 - b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
3. Plant nad ydynt yn byw yn y dalgylch diffiniedig ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni wedi bodloni'r ALI, erbyn y dyddiad cau cyhoeddiedig ar gyfer derbyn y ffurflenni mynegi dewis Derbyn i'r Ysgol, y bydd y plant yn byw yn y dalgylch diffiniedig erbyn dechrau tymor yr ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Rhaid darparu tystiolaeth o gartref parhaol y plentyn (gweler adran **8**)

Os nad oes digon o le yn yr ysgol, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripled eraill.
 - b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
4. Plant yr argymhellir eu bod yn cael lle am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol, e.e. gofalwyr ifanc. I fodloni'r meini prawf meddygol a seicolegol, rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ategol gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig. Rhaid i'r dystiolaeth nodi mewn manylder pam mai'r ysgol dan sylw yw'r un fwyaf priodol a pha anawsterau a allai godi pe bai'r plentyn yn gorfod mynychu ysgol arall.

5. Caiff plant sy'n byw y tu allan i ardal ddalgylch yr ysgol gymunedol eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd gwag yn nhrefn y flaenoriaeth isod:
- a) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripled eraill.
 - b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.

Dylai rhieni/gofalwyr nodi na fydd gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i ddsbarth meithrin ysgol fabanod neu ysgol gynradd hawl 'awtomatig' i barhau i dderbyn eu haddysg yn yr un ysgol pan fyddant yn symud i ddsbarth derbyn. Bydd angen i rhieni/gofalwyr plant sy'n mynychu dosbarth meithrin, pa un a ydynt yn byw yn y dalgylch neu y tu allan iddo, lenwi Ffurflen Derbyn i'r Ysgol ar yr adeg briodol, gan nodi eu dewis ysgol (Gweler Adran 2).

Meini prawf pan nad oes digon o leoedd meithrin rhan-amser:-

- 1. Plant sy'n 'derbyn gofal' a phlant a arferai 'dderbyn gofal'.
- 2. Plant a fydd yn dair blwydd oed ar neu cyn 31 Rhagfyr 2019 ac sydd fel arfer yn byw yn dalgylch yr ysgol gymunedol. Bydd y plant hyn yn gymwys i gael lle rhan-amser ym mis Ionawr 2020 (blwyddyn un meithrin).

Os nad oes digon o le yn yr ysgol, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripled eraill.
 - b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
3. Plant nad ydynt yn byw yn y dalgylch diffiniedig ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni wedi bodloni'r ALI, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn y ffurflenni mynegi dewis Derbyn i'r Ysgol, y bydd y plant yn byw yn y dalgylch diffiniedig erbyn dechrau tymor yr ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Rhaid darparu tystiolaeth o gartref parhaol y plentyn (gweler adran 8).

Os nad oes digon o le yn yr ysgol, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n

frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripledi eraill.

- b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
4. Plant yr argymhellir eu bod yn cael lle am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol, e.e. gofalwyr ifanc. I fodloni'r meini prawf meddygol a seicolegol, rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ategol gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig. Rhaid i'r dystiolaeth nodi mewn manylder pam mai'r ysgol dan sylw yw'r un fwyaf priodol a pha anawsterau a allai godi pe bai'r plentyn yn gorfod mynychu ysgol arall.
5. Caiff plant sy'n byw y tu allan i ardal ddalgylch yr ysgol gymunedol eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd gwag yn nhrefn y flaenoriaeth isod:
- a) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripledi eraill.
- b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
6. Plant a fydd yn dair blwydd oed rhwng 1 Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2020 (bydd y plant hyn yn gymwys i gael lle rhan-amser ym mis Ebrill 2020) ac sydd fel arfer yn byw yn nalgylch yr ysgol gymunedol.

Os nad oes digon o le yn yr ysgol, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripledi eraill.
- b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
7. Plant a fydd yn dair blwydd oed rhwng 1 Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2020 (bydd y plant hyn yn gymwys i gael lle rhan-amser ym mis Ebrill 2020) nad ydynt yn byw yn y dalgylch diffiniedig ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni wedi bodloni'r ALI, erbyn y dyddiad cau cyhoeddiedig ar gyfer derbyn y ffurflenni mynegi dewis Derbyn i'r Ysgol, y bydd y plant yn byw yn y dalgylch diffiniedig erbyn dechrau tymor yr ysgol y

mae'r cais yn ymwneud ag ef. Rhaid darparu tystiolaeth o gartref parhaol y plentyn (gweler adran 8).

Os nad oes digon o le yn yr ysgol, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academiaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripled eraill.
 - b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
8. Plant a fydd yn dair blwydd oed rhwng 1 Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2020 (bydd y plant hyn yn gymwys i gael lle rhan-amser ym mis Ebrill 2020) yr argymhellir eu bod yn cael lle am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol, e.e. gofalwyr ifanc. I fodloni'r meini prawf meddygol a seicolegol, rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ategol gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig. Rhaid i'r dystiolaeth nodi mewn manylder pam mai'r ysgol dan sylw yw'r un fwyaf priodol a pha anawsterau a allai godi pe bai'r plentyn yn gorfod mynychu ysgol arall.
9. Plant a fydd yn dair blwydd oed rhwng 1 Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2020 (bydd y plant hyn yn gymwys i gael lle rhan-amser ym mis Ebrill 2020) sy'n byw y tu allan i ardal ddalgyrch yr ysgol gymunedol eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd gwag yn nhrefn y flaenoriaeth isod:
- a) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academiaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripled eraill.
 - b) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol nad oes ganddynt unrhyw hawl i apelio penderfyniadau yn achos derbyniadau i addysg feithrin.

Dylai rhieni/gofalwyr nodi'r trefniadau arbennig canlynol:

1. Ym mis Tachwedd 2012, cytunodd y Cyngor y byddai datblygiad newydd Linc Cymru yng ngogledd-ddwyrain Bracla (a adwaenir fel Trem-y-Castell) yn cael ei benodi i ddalgyrch Ysgol Gynradd Llangrallo o fis Medi 2014 ymlaen. Cytunwyd ymhellach mai dyma fyddai'r sefyllfa am bum mlynedd, ac y cai ei hadolygu yn 2019. Ar gyfer y cyfnod derbyn hwn, 2019/20, penderfynwyd parhau â'r trefniant

hwn. Bydd plant o'r ardal hon yn gallu cael cludiant am ddim i'r ysgol, yn unol â'r Polisi Cludiant i'r Ysgol a fydd yn berthnasol ar y pryd.

Os nad yw rhieni / gofalmwyr yn siŵr ym mha ddalgylch y maent yn byw, fe'u cynghorir i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr ar 01656 642637.

13. ADDYSG GYNRADD

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob plentyn dderbyn addysg lawn amser o ddechrau tymor yr ysgol yn dilyn ei ben-blwydd yn bump oed. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr fodd bynnag, caiff pob plentyn ei dderbyn fel arfer i ddosbarthiadau derbyn yn y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn bedair oed.

Eto, mae'r ALI yn ymrwymedig i'r egwyddor o ddarparu ysgolion lleol i blant lleol a bydd yn gwneud pob ymdrech bosibl i sicrhau bod plant yn cael lle yn eu hysgol ddalgylch, lle y mae rhieni/gofalmwyr wedi dweud mai honno yw eu dewis ysgol. Fodd bynnag, os yw nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr ALI yn defnyddio'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:-

Meini prawf pan fydd gormod o geisiadau:-

1. Plant 'sy'n derbyn gofal' a phlant a arferai 'dderbyn gofal'.
2. Plant sydd fel arfer yn byw yn nalgylch yr ysgol gymunedol.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a.) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripledi eraill.
 - b.) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
3. Plant nad ydynt yn byw yn y dalgylch diffiniedig ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni wedi bodloni'r ALI, erbyn y dyddiad cau cyhoeddiedig ar gyfer derbyn y ffurflenni mynegi dewis Derbyn i'r Ysgol, y bydd y plant yn byw yn y dalgylch diffiniedig erbyn dechrau tymor yr ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Rhaid darparu tystiolaeth o gartref parhaol y plentyn (gweler adran 8)

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a.) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripledi eraill.

- b.) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
4. Plant yr argymhellir eu bod yn cael lle am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol, e.e. gofalwyr ifanc. I fodloni'r meini prawf meddygol a seicolegol, rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ategol gan weithiwr iechedd proffesiynol cofrestredig. Rhaid i'r dystiolaeth nodi mewn manylder pam mai'r ysgol dan sylw yw'r un fwyaf priodol a pha anawsterau a allai godi pe bai'r plentyn yn gorfod mynychu ysgol arall.
5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol gymunedol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar ôl yn ôl y drefn flaenoriaeth a nodir isod:
- a.) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academiaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripledi eraill.
- b.) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.

Dylai rhieni/gofalwyr nodi'r trefniadau arbennig canlynol:-

1. Ym mis Tachwedd 2012, cytunodd y Cyngor y byddai datblygiad newydd Linc Cymru yng ngogledd-ddwyrain Bracla (a adwaenir fel Trem-y-Castell), yn cael ei benodi i ddalgylch Ysgol Gynradd Llangrallo o fis Medi 2014 ymlaen. Cytunwyd mai dyma fyddai'r sefyllfa am bum mlynedd ac y cai ei hadolygu yn 2019. Ar gyfer y cyfnod derbyn hwn, sef 2019/20, penderfynwyd parhau â'r trefniant hwn. Bydd plant o'r ardal hon yn gallu cael cludiant am ddim i'r ysgol, yn unol â'r Polisi Cludiant i'r Ysgol a fydd yn berthnasol ar y pryd.

Os nad yw rhieni / gofalwyr yn siŵr ym mha ddalgylch y maent yn byw, fe'u cynghorir i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr ar 01656 642637.

14. TROSGLWYDDO I YSGOL IAU NEU I ADRAN IAU O FEWN YSGOL GYNRADD

Bydd plant yn mynd, neu'n trosglwyddo, i ysgol iau neu adran iau mewn ysgol gynradd ar ddiwrnod cyntaf tymor yr hydref yn dilyn eu pen-blwydd yn saith oed.

Pan fydd ardal yn cael ei gwasanaethu gan ysgol fabanod ac ysgol iau neu ysgolion cynradd ar wahân, bydd angen i rieni plant mewn ysgol fabanod lenwi'r ffurflen Derbyn i'r Ysgol er mwyn sicrhau bod eu cais i gael lle i'w plentyn yn cael ei ystyried ar adeg trosglwyddo o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau neu'r ysgol gynradd berthnasol.

Mewn ysgolion cynradd, adrannau o'r un ysgol yw'r adran fabanod a'r adran iau a bydd plant yn symud o'r naill adran i'r llall yn yr ysgol, o'r adran fabanod i'r adran iau, heb orfod trosglwyddo i rywle arall. Felly, **nid** oes angen i rieni lenwi ffurflen, gan fod y plant eisoes yn cael eu hystyried yn ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol gynradd.

15. ADDYSG UWCHRADD

Fel arfer, bydd plant yn trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn dilyn eu pen-blwydd yn un ar ddeg oed. Nid yw bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol fwydo iau neu gynradd yn eu gwneud yn gymwys i gael eu derbyn yn awtomatig i'r ysgol uwchradd gysylltiedig. Fodd bynnag, pan fydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd yr ALI yn defnyddio'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth i ddyrannu'r lleoedd sydd ar gael:

Meini prawf pan fydd gormod o geisiadau:

1. Plant 'sy'n derbyn gofal' a phlant a arferai 'dderbyn gofal'.
2. Plant sydd fel arfer yn byw yn nalgylch yr ysgol gymunedol.

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a.) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripled eraill.
 - b.) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
3. Plant nad ydynt yn byw yn y dalgylch diffiniedig ar hyn o bryd, ond y mae eu rhieni wedi bodloni'r ALI, erbyn y dyddiad cau cyhoeddiedig ar gyfer derbyn y ffurflenni mynegi dewis Derbyn i'r Ysgol, y bydd y plant yn byw yn y dalgylch diffiniedig erbyn dechrau tymor yr ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Rhaid darparu tystiolaeth o gartref parhaol y plentyn (gweler adran **8**).

Pan fydd ysgol wedi derbyn gormod o geisiadau, bydd yr ALI yn dyrannu'r lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- a.) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripled eraill.
 - b.) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.
4. Plant yr argymhellir eu bod yn cael lle am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol, e.e. gofalwyr ifanc. I fodloni'r meini prawf meddygol a seicolegol, rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ategol gan weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig. Rhaid i'r dystiolaeth nodi pam mai'r ysgol dan sylw yw'r un fwyaf priodol a pha anawsterau a allai godi pe bai'r plentyn yn gorfod mynychu ysgol arall.

5. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol gymunedol yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw lleoedd sydd ar ôl yn ôl y drefn flaenoriaeth a nodir isod:
- a.) Plant â brawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020. Ystyrir brawd neu chwaer yn hanner brawd/chwaer neu'n frawd/chwaer lawn, yn llysfrawd/llyschwaer, yn frawd/chwaer a fabwysiadwyd, neu'n blentyn sy'n byw yn yr un cartref. Wrth ddyrannu lleoedd, os bydd y lle olaf yn cael ei gynnig i blentyn aml-enedigaeth (h.y. gefell neu dripled), bydd yr ALI hefyd yn derbyn y gefell arall / tripled i eraill.
 - b.) Pellter i'r ysgol, a fesurir yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael (o'r cartref i brif glwyd yr ysgol). Mae'r Cyngor yn defnyddio system feddalwedd GIS i fesur pob pellter.

Dylai rhieni/gofalwyr nodi'r trefniant arbennig canlynol:

1. Cytunodd y Cyngor i newid dalgylchoedd Ysgolion Cyfun Porthcawl a Chynffig o fis Medi 2015 ymlaen. O ganlyniad i'r newid, daw Gogledd a De Corneli i gyd yn rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Cynffig. Bydd rhieni disgyblion sydd â brawd neu chwaer hŷn eisoes yn mynychu un o'r ysgolion a gaiff eu heffeithio arnynt gan y newidiadau hyn yn gallu dewis gwneud cais i frodyr a chwiorydd iau fynychu'r un ysgol â'r brawd neu'r chwaer hŷn. Am bum mlynedd ar ôl rhoi'r newidiadau hyn ar waith, bydd y brodyr a'r chwiorydd iau hyn yn cael eu trin fel pe baent yn byw yn y dalgylch 'gwreiddiol'. Bydd y trefniant hwn yn dod i ben ym mis Medi 2020. Bydd cludiant am ddim i'r ysgol yn parhau i gael ei gynnig yn unol â'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol sy'n berthnasol ar hyn o bryd. Yn unol â'r polisi cyfredol, nid yw disgyblion sy'n mynychu ysgol ar wahân i'w hysgol ddalgylch eu hunain (pan fo lle ar gael iddynt yn eu hysgol ddalgylch) yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol. Felly, mae'n bosibl y gallai lle gael ei gynnig mewn ysgol (cyhyd â bod lleoedd ar gael yn yr ysgol) ar yr amod bod y rhieni'n gyfrifol am gostau a threfniadau cludiant y brodyr neu chwiorydd iau.

Os nad yw rhieni / gofalwyr yn siŵr ym mha ddalgylch y maent yn byw, fe'u cynghorir i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr ar 01656 642637.

16. DERBYN PLANT ÔL-16

Ar hyn o bryd, caiff y broses o dderbyn disgyblion sy'n dymuno parhau ag addysg ôl-16 mewn chweched dosbarth ysgol gymunedol ei phenderfynu gan ysgolion unigol. Dyma'r achos hefyd gyda disgyblion sy'n dymuno dilyn addysg ôl-16 mewn sefydliad addysg bellach. O ganlyniad, dylid anfon unrhyw geisiadau yn y categori hwn yn uniongyrchol i'r ysgol/ coleg addysg bellach. Mae ysgolion unigol/ colegau addysg bellach yn gyfrifol am gyhoeddi polisiâu ynglŷn â chael lle mewn chweched dosbarth sy'n cwmpasu'r meini prawf. Mae gan yr Awdurdod bolisi mynediad agored ran chweched dosbarth ysgolion.

17. CANLYNIAD Y CAIS

Sylwch nad oes hawl i apelio ar gyfer addysg anstatudol, e.e. addysg feithrin. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybod canlyniad eu cais yn ysgrifenedig. Os caiff y cais ei wrthod, bydd y llythyr yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad ac yn rhoi cyngor i'r rhieni/gofalwyr ar y broses apelio.

18. DERBYNIADAU/TROSGLWYDDIADAU AR GANOL BLWYDDYN

Bydd angen i rieni/gofalwyr sy'n symud i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y flwyddyn academaidd lenwi ffurflen 'Trosglwyddo yn ystod y Flwyddyn' yn gofyn i'w plant gael eu derbyn i'r ysgol. Yn yr un modd, os bydd rhieni'n symud o fewn y Fwrdeistref Sirol, mae'n bosibl y bydd arnynt eisiau gwneud cais i'w plant fynychu eu hysgol ddalgyloch. Byddai angen llenwi ffurflen 'Trosglwyddo yn ystod y Flwyddyn' er mwyn gwneud hyn. Os nad ydych yn symud tŷ, dylech ystyried goblygiadau'r cais trosglwyddo hwn (cyfeiriwch at y canllawiau ar y 'Ffurflen Drosglwyddo yn ystod y Flwyddyn'). Gellir cael ~~copïau o'r 'Ffurflen Drosglwyddo yn ystod y Flwyddyn' ar wefan y cyngor~~, neu yn uniongyrchol gan y Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr (01656 642637).

Mae'n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr eisiau gwneud cais am le mewn ysgol wahanol am resymau eraill. Os nad ydych yn symud tŷ, dylech siarad â'r pennaeth am y rhesymau dros newid ysgol. Ceir cryn dipyn o ymchwil sy'n dangos bod newid ysgolion yn aflonyddu ac yn gallu cael effaith niweidiol ar gyrhaeddiad disgybl. Ceir llawer o resymau dros hyn. Felly, mae'n bwysig ystyried hyn yn ofalus, yn enwedig yn achos disgyblion ym Mlynnyddoedd 10 ac 11 a fyddai wedi gwneud eu dewisiadau TGAU.

Mewn achosion sy'n ymwneud â cheisiadau i newid ysgol nad ydynt yn gysylltiedig â symud tŷ, neu phan nad oes angen symud ar unwaith, bydd yr ALI fel arfer yn trefnu i'r plentyn ddechrau'r ysgol ar ddechrau'r tymor er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ei addysg ei hun ac addysg y plant eraill.

Gellir cael cyngor pellach ar drosglwyddo plentyn i ysgol arall gan y Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr (01656 642637).

19. RHESTRAU AROS

Mae gan yr ALI restrau aros ar gyfer ysgolion lle mae mwy o geisiadau wedi dod i law nac o leoedd yn yr ysgol. Ar ôl i'r lleoedd gael eu dyrannu yn ystod y cylch derbyn arferol, bydd plant yn parhau ar y rhestr aros nes fo'u rhieni'n gofyn iddynt gael eu tynnu oddi ar y rhestr. Pan fydd ceisiadau'n cael eu derbyn y tu allan i'r cylch dderbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros am gyfnod o fis.

Os daw lleoedd ychwanegol ar gael, byddant yn cael eu dyrannu ar sail y meini prawf cyhoeddedig pan fydd gormod o geisiadau (gweler yr adran berthnasol uchod) ac **NID** ar sail yr amser y mae disgybl wedi bod ar y rhestr aros.

20. DERBYN Y TU ALLAN I'R GRŴP OEDRAN ARFEROL

O bryd i'w gilydd, bydd rhieni/gofalwyr plant dawnus neu dalentog yn ceisio cael lle ysgol i'w plentyn nad yw'n cyfateb i'w oedran arferol. Bydd yr ALI yn ystyried pob achos yn unigol ac yn dod i benderfyniad mewn ymgynghoriad â'r ysgol a'r rhiant/gofalwr.

Gallai fod amgylchiadau eraill pan fydd angen ystyried lle ysgol nad yw'n cyfateb i ystod oedran arferol plentyn, er enghraifft, pan fydd plentyn wedi cael problemau neu wedi colli rhan o'r flwyddyn o ganlyniad i salwch.

Os yw'r ALI yn credu bod cais am le mewn gr^{*p} nad yw'n cyfateb i oedran y plentyn yn briodol ond bod y cais hwnnw'n cael ei wrthod am nad oes lleoedd ar gael yn yr ysgol, bydd y rhiant/gofalwr yn cael cynnig yr hawl i apelio. Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio os oes lle wedi'i gynnig, ond nid yn y gr^{*p} blwyddyn y gwnaed y cais amdano (h.y. pan gynigir lle yn y gr^{*p} blwyddyn sy'n gronolegol gywir ar gyfer oedran y plentyn).

21. COFRESTRU APÊL

Yn y mwyafrif llethol o achosion, cynigir lleoedd i blant yn unol â dewis ysgol eu rhieni. Fodd bynnag, os nad yw plentyn yn gallu cael lle, gall rhieni dderbyn lle a gynigir mewn ysgol arall wrth iddynt geisio cael lle yn eu dewis ysgol. Os yw rhieni'n credu bod eu hamgylchiadau yn cyfiawnhau ystyriaeth bellach, gallant ddewis gwneud apêl i banel annibynnol. Bydd y panel hwn yn ystyried y rhesymau a gynigir gan rieni dros apelio ac yn penderfynu a yw rhinweddau eu hachos yn gorbwyso'r dadleuon a gyflwynir gan yr ALI. Cyn apelio, cynghorir rhieni i ystyried polisi derbyn yr ALI.

Gall rhieni/gofalwyr apelio'n swyddogol yn erbyn yr ALI ond rhaid i'r apêl ddod i law o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) o gael gwybod am y penderfyniad i wrthod lle i blentyn yn yr ysgol ddewisol. Dylai rhieni gyflwyno'u hapêl, gan nodi eu rhesymau dros apelio, drwy ysgrifennu at: Y Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr, Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB. Bydd yr ALI yn cyfeirio'r apêl at Banel Apelio Annibynnol. Bydd Clerc y Panel yn trefnu amser a lle ar gyfer y gwrandawriad. Bydd y panel yn rhoi'r cyfle i rieni ddod ger eu bron a chyflwyno'u sylwadau (ar lafar ac/neu yn ysgrifenedig).

Cynghorir rhieni/gofalwyr o'r canlynol:-

1. Gallant ddewis peidio â mynd i'r cyfarfod apelio ac, yn hytrach, caniatáu i'r apêl gael ei hystyried ar sail datganiad ysgrifenedig;
2. Os na fyddant yn bresennol heb roi esboniad rhesymol, bydd yr apêl yn cael ei phenderfynu ar yr wybodaeth sydd ar gael;
3. Os na allant fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, ac nid yw'n rhesymol yn ymarferol cynnig gohirio'r gwrandawriad, bydd yn rhaid i'r apêl gael ei phenderfynu ar ba bynnag wybodaeth sydd ar gael;
4. Byddant yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig am gyfarfod y panel apelio o leiaf 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) ymlaen llaw, oni bai eu bod yn cytuno i gyfnod byrrach. Dylai rhieni/gofalwyr gadarnhau hyn yn ysgrifenedig gyda chlerc y panel.

Gall ffrind, cynghorydd neu gyfieithydd ddod gyda'r rhieni/gofalwyr, ond ni fydd gan Gynghorwyr ALI yr hawl i fod yn bresennol. Gofynnir i rieni roi gwybod i glerc y panel apelio annibynnol am unrhyw gynrychiolaeth o leiaf saith diwrnod cyn y gwrandawriad. Cynghorir rhieni hefyd bod asiantaethau fel SNAP, rhif ffôn 08451203730 ac ACE, rhif ffôn 03000115142, ar gael i ddarparu cymorth wrth apelio.

22. AIL APÊL

Yn gyffredinol, nid oes gan rieni/gofalwyr yr hawl i ail apêl mewn cysylltiad â'r un ysgol a'r un flwyddyn academaidd, ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:

- Roedd diffygion yn y broses apelio gyntaf ac mae'n bosibl iawn bod y diffygion hyn wedi effeithio ar y canlyniad (gallai hyn fod ar argymhelliad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus); neu
- Pan fydd cais newydd yn cael ei dderbyn am fod newid sylweddol a materol wedi digwydd yn amgylchiadau'r rhiant neu'r plentyn a bod y cais hwnnw hefyd wedi cael ei wrthod. Enghreifftiau cyffredin o amgylchiadau pan fydd cais newydd yn cael ei ystyried yw lle y mae teulu wedi symud i gartref newydd neu os ceir rhesymau meddygol newydd.

Gall rhieni/gofalwyr sy'n apelio'n aflwyddiannus ail-ymgeisio am le yn yr un ysgol mewn blwyddyn academaidd ddiweddarach. Os ydynt yn aflwyddiannus eto, mae ganddynt yr hawl i apelio.

23. ADDYSG GYMRAEG

Yn unol â'r gofynion statudol, polisi'r ALI yw y dylai pob plentyn gael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Darperir ar gyfer hyn yn y ffyrdd canlynol:

1. Dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

- a) Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, mae pob disgybl yn dysgu Cymraeg. Caiff y pwyslais ei roi ar ddefnyddio'r iaith yn bwrpasol ac mewn sefyllfaoedd ystyrllon. Yn ogystal â hyn, anogir plant i ddefnyddio'r iaith yn achlysurol yn ystod y diwrnod ysgol.
- b) Yn ystod cyfnod allweddol 2, datblygir yr iaith ymhellach ar lafar, gyda mwy o bwyslais ar sgiliau darllen ac ysgrifennu.
- c) Yn ystod cyfnod allweddol 3, mae pob disgybl yn dysgu Cymraeg ac mae bellach yn orfodol yng nghyfnod allweddol 4. Darperir cyfleoedd ym mhob ysgol i ddisgyblion barhau â'u hastudiaethau ar gyfer yr arholiadau 16+ a Safon Uwch.

2. Darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

- a) Mae addysg Gymraeg ar gael yn y pedair ysgol gynradd Gymraeg i bob disgybl y mae ei rieni yn dewis iddo gael ei addysgu yn Gymraeg.
- b) Mae'n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr sy'n byw yn nwyrain y fwrdeistref sirol eisiau i'w plant fynychu'r Uned Gymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am unrhyw gostau cludiant i ddisgyblion cymwys, ond dim ond os yw'r disgyblion hynny'n byw'n agosach i Ysgol Gynradd Dolau nag i Ysgol Bro Ogwr.
- c) Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff pob pwnc a gweithgaredd ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg.
- ch) Cyflwynir Saesneg fel pwnc yn CA2. Er y caiff pob pwnc arall ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, caiff safonau'r Saesneg eu diogelu.
- d) Bydd y trefniant rhwng awdurdodau addysg Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf yn caniatáu i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gyfun Llanhari ar hyn o bryd barhau â'u haddysg yn yr ysgol.

Rheolir lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg trwy ddefnyddio'r meini prawf derbyn a nodwyd yn adran berthnasol y polisi hwn.

24. DERBYN I YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR

Mae pum ysgol wirfoddol a gynorthwyir ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a gaiff eu hariannu'n bennaf gan yr Awdurdod Lleol. Corff llywodraethu pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir yw'r awdurdod derbyn sy'n gyfrifol am yr holl drefniadau derbyn.

Dyma'r pum ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd yn y fwrdeistref sirol:

1. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Pen-y-bont ar Ogwr
2. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig, Maesteg
3. Ysgol Gynradd Gatholig Sant Roberts, Abercynffig
4. Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath
5. Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Archddiacon John Lewis

Cynghorir rhieni/gofalwyr sy'n dymuno i'w plant gael eu derbyn i'r ysgolion hyn gysylltu â'r ysgol berthnasol am ragor o wybodaeth.

25. DERBYN I YSGOL WIRFODDOL A REOLIR

Yr un ysgol wirfoddol a reolir ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen-y-fai, a ariennir gan yr ALI. Mae ei meini prawf derbyn yn gyson â meini prawf derbyn yr ALI a Gweithred Ymddiriedolaeth yr ysgol. Caiff trefniadau apelio eu rheoli gan yr ALI ac maent yn gyson â darpariaeth y Weithred Ymddiriedolaeth.

26. TREFNIADAU GYDAG AWDURDODAU LLEOL ERAILL

Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud y trefniadau canlynol gydag ALI Rhondda Cynon Taf lle y mae lleoedd gwag / dros ben ar gael mewn ysgolion.

1. Gall disgyblion Ysgol Gynradd Abercerdin fynychu Ysgol Gyfun Tonyrefail a bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am gostau cludiant.
2. Gall disgyblion Ysgol Gynradd Dolau, Ysgol Gynradd Brynna ac Ysgol Gynradd Llanharan fynychu Ysgol Gyfun Pen-coed a bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am gostau cludiant.
3. Gall disgyblion o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fynychu'r Uned Gymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau a bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am unrhyw gostau cludiant i ddisgyblion cymwys, ond dim ond os yw'r disgyblion hynny'n byw'n agosach i Ysgol Gynradd Dolau nag i Ysgol Bro Ogwr.

Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr unrhyw drefniadau ar gyfer darpariaeth addysg mewn ysgolion nas cynhelir gan Awdurdod Lleol.

27. YSGOLION ARBENNIG

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am bennu'r ddarpariaeth addysgol arbennig sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Gallai hyn gynnwys darpariaeth ysgol brif ffrwd neu arbennig ac, mewn achosion eithriadol, lleoedd mewn ysgolion y tu allan i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Dan amgylchiadau arbennig, mae gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru hefyd yr awdurdod i benderfynu ble y bydd plentyn â datganiad yn cael ei addysgu.

Mae dwy ysgol arbennig y Fwrdeistref Sirol yn ganolfannau rhanbarthol, sy'n derbyn disgyblion o awdurdodau lleol cyfagos.